**Polisi Addoli ar y Cyd Drafft**

*Mae'r polisi hwn yn ymwneud ag ysgolion cymunedol/sirol ond fe allai hefyd fod yn ddefnyddiol i Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir neu Ysgolion Gwirfoddol a Reolir.*

**Cynnwys:**


1) **Nodau a manteision Addoli ar y Cyd**
   i. Mae addoli ar y cyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol
   ii. Mae addoli ar y cyd yn cyfrannu at ddatblygiad personol
   iii. Mae cymuned gyfan yr ysgol yn elwa o addoli ar y cyd
   iv. Mae addoli ar y cyd yn cysylltu cymuned yr ysgol a'r gymuned leol ehangach
   v. Mae addoli ar y cyd yn gwella ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang
2) **Beth yw addoli ar y cyd?**
   i. Ein Diffiniad Gweithredol
3) **Beth yw'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd?**
4) **Hawl i Dynnu Allan o Addoli ar y Cyd**
5) **Sut rydym ni'n cynnig darpariaeth Addoli ar y Cyd**
6) **6) Atodiadau Posibl**
   i. Sefydliad
   ii. Cynllunio / Themâu
7) **Cyfeiriadau**


## 1) Nodau a manteision Addoli ar y Cyd

### i. Mae addoli ar y cyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, drwy:

- sicrhau amser penodol ar wahân i weithgareddau arferol yr ysgol;
- cefnogi profiadau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, a galluogi dysgwyr i feithrin ymdeimlad o'u safle o fewn y darlun cyffredinol;
- meithrin gallu dysgwyr i fyfyrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain;
- datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o fywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn;
- archwilio ac annog ymatebion i gwestiynau sylfaenol ynghylch ystyr bywyd, newid a marwolaeth.

### ii. Mae addoli ar y cyd yn cyfrannu at ddatblygiad personol, drwy:

- gyfrannu at iechyd a chyfanrwydd, a deallusrwydd emosiynol;
- annog myfyrio ar deimladau a chredoau mewnol;
- datblygu credoau a gwerthoedd, yn bersonol a chymunedol;
- annog dealltwriaeth o gredoau a gwerthoedd pobl eraill;
- cynyddu hunan-barch a phwrpas mewn bywyd;
- meithrin gallu pobl i wneud dewisiadau moesol er da neu ddrwg, trwy feddwl am 'godau moesol, perthnasoedd, cyfrifoldeb, parch tuag at amrywiaeth, temtasiwn, pŵer yr hunan, aberth a chariad'.

### iii. Mae cymuned gyfan yr ysgol yn elwa o addoli ar y cyd, drwy:

- annog ystyr, pwrpas a gwerthoedd a rennir;
- cyfrannu at y profiad o berthyn i gymuned;

- darparu cyfleoedd i ddathlu cyflawniadau'r ysgol a chyfraniad unigolion at y cyflawniadau hynny;
- meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gredoau a gwerthoedd unigolion eraill o fewn cymuned yr ysgol;
- darparu cyfleoedd i fyfyrio ar ac i rannu yn y digwyddiadau a'r profiadau 'hapus' a 'thrist', sy'n effeithio ar gymuned yr ysgol;
- cyfrannu at ethos ysgol sy'n cefnogi cyrhaeddiad addysgol pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir, drwy feithrin hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd.

iv. **Mae addoli ar y cyd yn cysylltu cymuned yr ysgol a'r gymuned leol ehangach, drwy:**
- ddefnyddio amrywiaeth o gynrychiolwyr priodol a ddewiswyd yn ofalus o fewn y gymuned leol i gyfrannu at addoli ar y cyd;
- cyfrannu at y profiad o berthyn i gymuned leol ehangach;
- darparu cyfleoedd i ddathlu cyflawniadau'r gymuned leol a chyfraniad grwpiau ac unigolion at y cyflawniadau hynny;
- meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gredoau a gwerthoedd unigolion eraill o fewn y gymuned leol;
- cefnogi dealltwriaeth a rennir ynghylch sut y gall dysgwyr unigol ac ysgol gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach;
- darparu cyfleoedd i fyfyrio ar ac i rannu yn y digwyddiadau a phrofiadau 'hapus' a 'thrist' a
  phrofiadau sy'n effeithio ar y gymuned leol.
- *Gweler yr atodiad - cod ymddygiad ar gyfer ymwelwyr ac ymweliadau.*

v. **Mae addoli ar y cyd yn gwella ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang, drwy:**
- ddefnyddio ystod o ddeunydd a ddewiswyd yn ofalus i hyrwyddo ymwybyddiaeth fyd-eang;
- cyfrannu at y profiad o berthyn i gymuned fyd-eang;
- darparu cyfleoedd i ddathlu digwyddiadau byd-eang a llwyddiannau pobl;
- datblygu dealltwriaeth o anghydraddoldeb ac amrywiaeth byd-eang
- cynnig cyfleoedd i fyfyrio ar a rhannu mewn argyfyngau byd-eang ac achosion o ddioddefaint dynol.

2) **Beth yw addoli ar y cyd?**

Nid yw addoli wedi cael ei ddiffinio mewn deddfwriaeth. Mae addoli mewn ysgolion yn wahanol i addoli ymysg grŵp o bobl sydd â'r un gred. Mae'n cael ei gydnabod mewn deddfwriaeth trwy gyfeirio at addoli 'ar y cyd' yn hytrach na addoli 'corfforaethol'. Mae'n rhaid iddo, i ryw raddau, adlewyrchu rhywbeth arbennig neu ar wahân i weithgareddau ysgol arferol.

i. **Ein diffiniad gweithredol:**

*Amser i gorff yr ysgol (yn ei gyfanrwydd neu mewn grwpiau llai) gwrdd a myfyrio ar y gwerthoedd y mae'r ysgol yn eu hystyried yn bwysig. Bydd llawer o'r gwerthoedd hyn yn seiliedig ar y traddodiad Cristnogol (ond nid hynny'n unig).*

3) **Beth yw'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd?**

Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 a Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94 yn cynnwys y gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir.

*Mae Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig) 1994 yn cynnwys y gofynion ar gyfer addoli ar y cyd mewn ysgolion arbennig.*

Dyma'r gofynion:

- mae'n rhaid i ysgolion gynnig addoli ar y cyd yn ddyddiol i'r holl ddisgyblion ar y gofrestr,
- dylai'r rhan fwyaf o weithredoedd addoli ar y cyd ym mhob tymor fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf o rinwedd Cristnogol ar y cyfan. Mae hynny'n golygu y dylen nhw adlewyrchu traddodiadau eang y gred Gristnogol heb gyfeirio at unrhyw enwad Cristnogol yn benodol,
- gellir addoli ar y cyd ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol,
- gellir darparu addoli ar y cyd i ddisgyblion mewn grŵp o unrhyw faint, er enghraifft, fel dosbarth, grŵp blwyddyn, grŵp cyfnod neu gymuned yr ysgol gyfan, ac
- mae'n rhaid i addoli ar y cyd fod yn gynhwysol. Dylai roi ystyriaeth i gredoau, cefndiroedd teuluoedd, oedrannau a dawn y disgyblion dan sylw.

Nid oes gofyniad cyfreithiol i gynnig addoli ar y cyd i ddisgyblion sy'n iau na phump oed.

**4) Hawl i Dynnu Allan o Addoli ar y Cyd**

Gall rhiant ofyn i'w plentyn gael eu hesgusodi o addoli ar y cyd. Nid oes rhaid i rieni roi rheswm dros eu penderfyniad. Mae'n rhaid i'r ysgol oruchwylio disgyblion sy'n cael eu hesgusodi. Efallai y bydd yr ysgol, mewn cytundeb â'r rhieni, yn cynnig trefniadau eraill ar gyfer addoli i un neu fwy o ddisgyblion sydd wedi'u hesgusodi ond nid oes rheidrwydd ar yr ysgol i wneud hynny.

Mae Bil Addysg ac Arolygiadau 2006 yn rhoi'r hawl i ddisgyblion chweched dosbarth esgusodi eu hunain o addoli ar y cyd. Daeth y ddeddfwriaeth i rym yng Nghymru ym mis Chwefror 2009.

Mae gan athrawon yr hawl i dynnu eu hunain allan o addoli ar y cyd. Fodd bynnag, bydd yr ysgol yn sicrhau bod addoli ar y cyd yn dal i gael ei ddarparu yn ddyddiol i'r holl ddisgyblion.

Mewn achosion lle mae rhiant yn gofyn i'w plentyn i gael eu hesgusodi o addoli ar y cyd, bydd yr ysgol yn annog rhieni i beidio â thynnu eu plentyn allan o bob gwasanaeth. Bydd yr ysgol yn gwahodd y rhieni i drafod eu pryderon penodol a rhannu'r cynlluniau a'r themâu hirdymor.

**5) Sut rydym ni'n cynnig darpariaeth Addoli ar y Cyd**

Nid oes gofyniad amser ar gyfer Addoli ar y Cyd.

Mae'r weithred o addoli ar y cyd yn wahanol i wasanaeth. Er enghraifft, efallai y bydd ymwelydd yn cael ei wahodd i archwilio peryglon bwlio mewn cynulliad ysgol gyfan

(gwasanaeth), ni fyddai hyn yn cael ei ystyried fel gweithred o addoli ar y cyd. Dylai'r gwahaniaeth rhwng y ddau fod yn amlwg. Gall addoli ar y cyd mewn ysgolion fod ar sawl ffurf. Gall disgyblion arwain y weithred yn rhannol neu'n gyfan gwbl. Gall disgyblion drafod symbyliad wrth addoli ar y cyd, ond ni ddylid ystyried trafodaeth ar ei phen ei hun fel addoli. Hefyd, nid oes rhaid i addoli ar y cyd gynnwys y cyfle i gael trafodaeth.

Mae rhai o elfennau priodol addoli ar y cyd wedi'u hamlinellu yn y blwch isod, ond ni ddylid ei hystyried fel rhestr gyflawn.

Gall y weithred o addoli ar y cyd ymgorffori un neu fwy o'r elfennau hyn.

- **Myfyrio** – efallai y bydd disgyblion yn cael eu hannog i wrando, gwylio neu fyfyrio ar symbyliad priodol megis darlleniad o'r Beibl, neu ddarn arall o waith crefyddol neu ddiwylliannol arwyddocaol, drama, dawns, fideo, cân, darn o gerddoriaeth, arteffact, cerdd, stori, erthygl newyddion, ffotograff, llun, gweddi (gweler isod), cwestiwn, arferiad neu gyflwyniad neu sgwrs gan aelod o staff neu siaradwr gwadd.
- **Gweddi** – efallai y bydd disgyblion yn cael cynnig gweddïo allan yn uchel gyda'i gilydd neu weddïo'n unigol mewn distawrwydd. Dylid cynnig hyn ar sail wirfoddol. Bydd dysgwyr yn cael cynnig i gymryd rhan yn y weddi neu ymatal rhag gwneud hynny.
  **Cân** – efallai y bydd disgyblion yn cael cynnig cyfle i gydganu emyn neu gân addoli arall.
- **Darllen** – efallai y bydd disgyblion yn cael eu hannog i ddarllen darn o'r Beibl neu ddarn o waith crefyddol neu ddiwylliannol arwyddocaol arall, neu 'fyfyrdod y diwrnod'.

**6) Atodiadau Posibl**

i. Sefydliad (Enghraifft)

| | **Sefydliad** |
|---|---|
| **Dydd Llun** | Yr ysgol gyfan (20 munud) |
| **Dydd Mawrth** | Myfyrdod y dydd i ddosbarthiadau yn unigol |
| **Dydd Mercher** | Grŵp blwyddyn / ysgol isaf / ysgol uchaf / adran babanod / adran iau |
| **Dydd Iau** | Myfyrdod y dydd i ddosbarthiadau yn unigol |
| **Dydd Gwener** | Gwasanaeth Dathlu / Siaradwr Gwadd / Agor y Llyfr |

ii. Cynllunio / Themâu

Rhestr o'r themâu wythnosol gan gynnwys cyfeiriadau at wyliau crefyddol, dathliadau diwylliannol, defodau cenedlaethol a Diwrnodau Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig.

iii. Protocol ar gyfer Ymweliadau ac Ymwelwyr – Cliciwch yma i weld y ddolen allanol

**7) Cyfeiriadau:**

- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, adran 70.
- Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd (Cylchlythyr 10/94).
- CANLLAWIAU CCYSAGC AR DYNNU DISGYBLION ALLAN O ADDOLI AR Y CYD, Hydref 2021.
- Bil Addysg ac Arolygiadau, 2006.

- Canllawiau CCYSAGC ar Addoli ar y Cyd, Mehefin 2012.
- Canllawiau Atodol Estyn ar Addoli ar y Cyd, 2017.